**COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF ABERAERON A GYNHALIWYD AR NOS FAWRTH IONAWR 14eg 2025 AM 7.00yh**
**YN NEUADD GOFFA ABERAERON**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Aled Davies (Cadeirydd); Y Cynghorwyr, Phillip Davies, Elizabeth Evans, Lloyd Garvey, Rhodri Jones, Agnieszka Kalinowsza a Diana Mace.
Mr Denfer Morgan – Clerc y Cyngor.

## 502. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Tim Archer a Darryl Evans.

## 503. HEDDLU DYFED POWYS

Croesawodd y Cadeirydd SCCH Charlotte Carter i'r cyfarfod a darparwyd y wybodaeth ganlynol.

Bu sawl digwyddiad gwrthgymdeithasol mewn tafarndai dros gyfnod y Nadolig, gan gynnwys digwyddiadau ymosod. Gweithredwyd yn ôl cynllun BOBB gyda thri unigolyn yn derbyn gwaharddiad am oes mewn tafarndai. Roedd ymchwiliadau yn parhau gyda'r bwriad o erlyn unigolion a oedd yn rhan o'r digwyddiadau yma.

Nodwyd bod pob adeilad trwyddedig ar wahân i'r Clwb Rygbi nawr yn rhan o gynllun 'Pubwatch'.

Monitrwyd pobl ifanc ynghylch yfed dan oed a oedd yn fwy o broblem na fepio a defnydd cyffuriau. Roedd llai o ddigwyddiadau difrod troseddol yn ystod y cyfnod.

Arestiwyd unigolyn ynghylch torri mewn i'r Orsaf Dân a'r difrod cysylltiedig.

Cynghorodd SCCH Carter y byddai'n gadael ei swydd ym mis Medi i hyfforddi fel Cwnstabl ond byddai'n sicrhau y byddai parhad gyda'i holynydd. Cytunodd i ofyn i'r heddwas wedi'i leoli yn y dref, PC Christopher Tipper, i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.

## 504. CADARNHAD COFNODION Y CYFARFOD MISOL AR RAGFYR 10fed 2024

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod misol ar Ragfyr 10fed 2024 yn gywir, yn amodol ar y canlynol:

a) Wrth roi trwydded, pwysleisiwyd i drefnwyr yr Ŵyl Arddio bod rhaid cymryd camau digonol, gan gynnwys arwyddbyst addas a goruchwyliaeth, i sicrhau na ddylai cŵn fod ar y Cae.

b) Nodi y dylai'r cofnodiuon adlewyrchu trafodaeth y Cyngor ar y sefyllfa gyfredol ynghylch bolardiau Heol y Bryn a chyfarwyddo'r Clerc i ofyn am ddiweddariad gan y Cyngor Sir ar y gweithredu ynghylch hyn.

**505. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Adroddodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ei bod hi, gyda'r Cynghorydd Marc Davies a Chlerc y Dref, wedi trafod gyda bargyfreithiwr y posibiliad o ddefnyddio 'straw man' a'i adnabod i arwain gydag unrhyw adolygiad barnwrol, ond nid oeddent wedi cwrdd â'r meini prawf, ac ni aethpwyd â'r mater yn ei flaen.

Adroddodd y Clerc fod y Cyngor wedi gohirio dwywaith ymateb i'r cwyn corfforaethol ynghylch y mater, a'r targed nawr oedd Ionawr 24[ain].

Cytunwyd i archwilio'r ymateb a roddwyd i Gomisiynydd Pobl Hŷn i'w cynrychiolaethau gan y Cyngor Sir.

Ynghylch Neuadd y Sir, nodwyd mai'r cynllun oedd symud y Llyfrgell a'r ddesg wasanaeth i Benmorfa ym mis Mehefin. Y bwriad oedd ymgymryd ag ailwampio er mwyn denu cwsmeriaid newydd, gyda chymorth grant i helpu gyda'r costau. Datganodd y Cynghorydd Evans ei bod yn cymryd camau i sicrhau fod y Neuadd yn cadw'n agored i sicrhau'r posibiliad o ddychwelyd y Llyfrgell yno yn y dyfodol. Deallwyd eisoes fod y ddwy ystafell flaen wedi'u gosod ar gyfer busnes lleol yn y man cyntaf.

**506. MATERION CYLLID**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r taliadau canlynol:

| Anfoneb | Cyfanswm |
|---|---|
| 4 Anfoneb Travail @ £777.02 (glanhawr stryd) dyddiedig: 06/12, 13/12, 20/12, 27/12<br>Dragon wifi (darpariaeth gwe-gamera 24/12/24-31/03/2) (yn amodol ar eglurhad y Clerc os mai dyblygu'r anfoneb flaenorol oedd hyn) | <br>£2,331.06<br>£234.58 |

**507. CYLLIDEB 2025-26**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 ac, yn benodol, y cyfansymiau a awgrymwyd i'w cynnwys i gwrdd â chost darparu gwasanaethau datganoledig y Cyngor Sir, sef:

Toiledau Traeth y De – agor yn yr haf - £5,400
Cynnal a Chadw'r Tir - £2,400
Glanhau'r Stryd - £16,000

Rhoddwyd ystyriaeth i'r angen i gynyddu Treth y Cyngor, a chytunwyd i gynnydd o 5% i gwrdd â'r gwariant ychwanegol a chyfyngu ar ddefnydd yr arian wrth gefn a oedd ar hyn o bryd ar lefel dderbyniol.

**PENDERFYNWYD:**

i) Cymeradwyo cyllideb o £59,174
ii) Cymeradwyo Archebiant o £50,708
iii) Gosod Treth Cyngor o £61.15 ar gyfer eiddo Band D.

**508. GWASANAETHAU DATGANOLEDIG CYNGOR SIR CEREDIGION**

Datganodd y Clerc fod y cytundeb glanhau'r stryd wedi'i hysbysebu a derbyniwyd un cais o ddiddordeb – gan y glanhawr stryd presennol – a ofynnodd am wybodaeth bellach cyn rhoi dyfynbris ffurfiol.

Cytunwyd i eglurhau'r materion canlynol;

a) Y person cyswllt fyddai'r Clerc
b) Ni chynhwyswyd chwynnu'r ffyrdd a'r palmentydd yn y cytundeb a byddai unrhyw chwynnu mewn mannau eraill yn bwnc trafod gyda'r Clerc.

**509. MATERION CYNLLUNIO**

Rhoddwyd ystyriaeth bellach i gais cynllunio A240458 5 Tanrallt, Aberaeron.
*Newidiadau arfaethedig i'r adeilad cyfredol i gynnwys dymchwel y garej cyfredol, annedd fyw arfaethedig a newidiadau i'r parcio cyfredol.*
Nodwyd derbyniad cadarnhad fod yr eiddo yma o fewn Ardal Gadwraeth a dosbarthwyd yr Asesiad Effaith Treftadaeth, ynghyd â'r cais, i'r Aelodau.

Datganodd y Cynghorydd Evans ei bod yn edrych mewn i'r cais gyda'r swyddog achos ac y byddai parcio gwell - a oedd yn rhan o'r cais - yn arwain at fwy o ddefnydd cerbydau yn yr ardal, yn achosi effaith andwyol ar ddefnydd mynedfa Penmorfa ar draws y ffordd i'r safle, a diogelwch y bobl a ddefnyddiai'r arosfan bws ym mlaen yr eiddo, pan fyddai'r Llyfrgell ym Mhenmorfa.

**510. MATERION TIR Y CYNGOR**

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

a) **Cae Sgwâr:** nododd y contractwr fod problem y llygod ffyrnig wedi'i ddatrys.

b) **Parc-y-Fro:** trefnu trwsio rhan o'r ffens a ddifrodwyd yn ystod Storm Darragh.

**511. DIWEDDARIAD PROSIECTAU DIGIDOL**

Nodwyd nad oedd ateb ynghylch storio dros dro y man lluniau.

Rhoddwyd blaenoriaeth i waith ar yr ap gan y Clerc.

**512. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-24**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2023-24.

## 513. DIWEDDARIAD CYNLLUN BRO

**PENDERFYNWYD** nodi bod yr Ymgynghorwyr wedi rhoi fersiwn llawn y Cynllun Bro i'r Cyngor Sir, a fyddai nawr yn cael ei symud ymlaen gan y Cyngor yma i adlewyrchu datblygiadau yn y dref. I'r perwyl yma, cytunwyd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Medi i gychwyn ar y broses.

## 514. RHESTRU FFYNNON GOCH A'R COREDAU

Rhoddwyd ystyriaeth i'r awgrym ynghylch rhestru'r strwythurau yma a dosbarthodd y Clerc fanylion am y broses gyfreithiol i'w dilyn.

**PENDERFYNWYD** yn y man cyntaf i drafod gyda Swyddog Cadwraeth y Cyngor Sir am gymorth i symud ymlaen gyda menter y Cyngor.

## 515. HYFFORDDIANT AELODAU

Rhoddwyd ystyriaeth i gyfle i'r Aelodau dderbyn hyfforddiant ar Gôd Ymddygiad gan Bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion. Nodwyd y byddai linc i'r sesiwn ar-lein yn cael ei basio ymlaen yn fuan.

## 516. YMDDISWYDDIAD CYNGHORWYR A THREFNIADAU AM LENWI'R SWYDDI

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Clerc ar y weithdrefn ynghylch llenwi'r ddau le gwag ar y Cyngor.

**PENDERFYNWYD** dechrau'r broses o lenwi'r swyddi yn unol â'r weithdrefn statudol trwy ofyn i Swyddog Etholiad i gyhoeddi hysbyseb yn gwahodd deg etholwr i ofyn am etholiad.

## 517. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR ELIZABETH EVANS

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Elizabeth Evans at y materion canlynol:-

- Roedd y toiledau cyhoeddus nawr i gyd ar agor
- Cynhaliwyd sesiwn yn gynharach yn y dydd ble derbyniwyd gwybodaeth fod gweithdrefnau statudol cywir wedi'u dilyn yn ystod y broses o gau pedair ysgol gynradd.
- Dechreuwyd ymchwiliad ynghylch y gadael sbwriel yn Lôn Peniel
- Roedd paratoadau'r Gyllideb 2025-26 yn parhau.

## 518. UNRHYW FATER CYMWYS ARALL

Cododd y Cynghorydd Phill Davies y canlynol:

- Yr angen i glirio’r gwteri yn y dref; a chytunodd y Cynghorydd Evans i ddilyn y mater
- Yr angen i waredu’r coed a ddifrodwyd ym manc Bro yr Hafan ac ardal yr harbwr dan y bont.

Gorffennwyd y cyfarfod am 8.35yh.